

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Meeting Venue:
Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

Meeting date:
Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2011

Meeting time:
09:15

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



For further information please contact:

Clerk: Sarah Beasley
Committee Clerk
029 2089 8639 / 029 2089 8032
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

Agenda

Cyfarfod preifat anffurfiol cyn y prif gyfarfod (09.00 – 09.15)

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:15 – 09:20)

**2. Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011 – Y prif heriau sy'n
wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru: tystiolaeth gan
Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (09:20 – 10:30)**

Vanessa Phillips, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**3. Sesiwn friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reoli Grantiau
(10:30 – 10:30) (Tudalennau 1 – 45)**

PAC(4) 08–11 – Papur 1 – Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Reoli Grantiau
yng Nghymru

Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru

**4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn**

Eitem 5

5. Busnes y Pwyllgor yn y dyfodol (10:30 – 10:45)

6. Papurau i'w nodi (Tudalennau 46 – 54)

Papur: PAC(4) 07-11 – Cofnodion

Papur: PAC(4) 08-11 – Papur 2 – Gohebiaeth gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru – Ymchwiliad i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau TGCh o dan gontract Merlin

Papur: PAC(4) 08-11 – Papur 3 – Gohebiaeth gan Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Ymchwiliad i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau TGCh o dan gontract Merlin



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Item 3
29 Iachwedd 2011
www.wao.gov.uk

Rheoli Grantiau yng Nghymru



Tudalen 1

Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Nick Davies, Jayne Elms, Sue Morgan a Chris Pugh o dan gyfarwyddyd Mike Usher.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae yntau'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilyddwr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2011

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Adroddiad a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 29 Tachwedd 2011



	Crynodeb	6
	Argymhellion	8
<hr/>		
1	Mae Cymru yn gwneud defnydd helaethach o arian grant penodol na rhannau eraill o'r DU ac mae nifer y cynlluniau a lefel y costau gweinyddu yn gymharol uchel	9
	Er nad yw'n glir faint o grantiau sy'n cael eu dyfarnu i gyrff cyhoeddus yng Nghymru neu ganddynt, ym mis Medi 2011 roeddem yn ymwybodol o fwy na 500 o wahanol gynlluniau, gwerth tua £2 biliwn y flwyddyn i gyd	10
	Yn wahanol i weinyddiaethau eraill y DU, nid yw Llywodraeth Cymru wedi dileu cyfyngiadau ar lefel sylweddol o arian grant i awdurdodau lleol, er ei bod yn lleihau nifer y cynlluniau grant	10
	Caiff costau gweinyddu a rheoli grantiau eu rhannu rhwng cyllidwyr a'r rhai sy'n derbyn y grantiau ac fel arfer maent yn cyfrif am o leiaf 10 y cant o'r arian	16
<hr/>		
2	Caiff llawer o gynlluniau grant eu rheoli'n wael, anaml mae gwersi yn cael eu dysgu ac anaml mae cyllidwyr yn llwyddo i ddelio â pherfformiad gwael y derbynwyr grantiau	18
	Mae'r ddrysfa ariannu yn ei gwneud yn anodd i ymgeiswyr weithredu'n effeithiol i sicrhau arian a chyflawni eu hamcanion	18
	Mae enghreifftiau amlwg o reoli grantiau'n wael yn rhannu gwendidau cyffredin sy'n codi dro ar ôl tro	19
	Mae'r ffordd y rheolir grantiau'n amrywio'n sylweddol o ran ansawdd ar lefel awdurdodau lleol	23
	Yn aml nid yw cyllidwyr yn mynd i'r afael â pherfformiad gwael yn gadarn nac yn gwneud gwaith dilynol pan fydd ceisiadau yn cael eu hamodi	26

3	Er mai araf yw'r cynnydd o ran gwella a chyflwyno dulliau ariannu amgen yn lle arian grant, mae cyllidwyr a sawl un o'r rhai sy'n derbyn grantiau yn dechrau gwella eu trefniadau	28
	Araf yw'r gwelliant	28
	Mae mwy o le i gyrff cyhoeddus ddefnyddio dulliau ariannu ar wahân i grantiau penodol i gyflawni eu canlyniadau	28
	Mae Llywodraeth Cymru a chyllidwyr eraill bellach yn gwella eu trefniadau ar gyfer rheoli grantiau er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian	30
	Mae rhai cynghorau wedi gwella eu trefniadau rheoli grantiau, ond mae eraill yn methu â gwneud hynny	32
	Atodiadau	33
	Atodiad 1 – Strategaeth Grantiau Swyddfa Archwilio Cymru	33
	Atodiad 2 – Adroddiadau a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion sy'n ymwneud â grantiau	37
	Atodiad 3 – Nodweddion gwahanol drefniadau ariannu (enghraifft Seland Newydd)	38
	Atodiad 4 – Cyfeiriadau at ddeunydd cyhoeddedig arall a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn	40
	Atodiad 5 – Deunydd darllen cysylltiedig sy'n ymwneud â rheoli grantiau	42

Crynodeb

- 1 Mae grantiau yn bwysig iawn yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru a chyllidwyr statudol eraill yn eu defnyddio fel offeryn pwerus i gyflawni eu hamcanion polisi, gan alluogi llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau penodol i bobl Cymru. Mae grantiau yn sbarduno ac yn cynnal gweithgarwch economaidd a chymdeithasol sylweddol ac maent hefyd yn fuddsoddiadau mawr o ran amser ac arian trethdalwyr.
- 2 Nododd ein dadansoddiad fod Cymru yn gwneud defnydd helaethach o arian grant penodol na rhannau eraill o'r DU, gyda nifer gymharol uchel o gynlluniau ac felly gostau gweinyddu cymharol uchel. Er nad yw'n glir faint o grantiau sy'n cael eu dyfarnu i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru neu ganddynt, ym mis Medi 2011 roeddem yn ymwybodol o fwy na 500 o wahanol gynlluniau, gwerth tua £2 biliwn i gyd. Yn wahanol i weinyddiaethau eraill y DU, nid yw Llywodraeth Cymru wedi dileu cyfyngiadau ar lefel sylweddol o arian grant, er ei bod yn lleihau nifer y cynlluniau grant i lywodraeth leol. Caiff costau gweinyddu a rheoli eu rhannu rhwng cyllidwyr a'r rhai sy'n derbyn y grantiau ac fel arfer maent yn cyfrif am o leiaf 10 y cant o'r arian.
- 3 Yn amlwg, mae'n bwysig iawn bod grantiau yn cael eu cynllunio a'u rheoli'n dda. Mae cyllidwyr am sicrhau bod cymaint o adnoddau â phosibl yn cael eu neilltuo ar gyfer cyflawni prosiectau, ac maent hefyd am fod yn sicr bod yr adnoddau hynny yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n cynnig gwerth gwirioneddol am arian. Yn bwysicach na hynny o bosibl, mae'n rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus bod yr arian hwn yn cael ei weinyddu a'i wario mewn ffordd deg a thryloyw. O ganlyniad, erys y gwaith o ardystio ceisiadau am grant yn rhan sylweddol o waith yr Archwilydd Cyffredinol, gan ategu a chefnogi ei archwiliadau o gyfrifon cyrff cyhoeddus Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y prif gyrrff yng Nghymru sy'n talu grantiau yn ogystal â'r cyrff sydd yn eu derbyn, yn enwedig y 22 o awdurdodau lleol Cymru.
- 4 Ers 2005, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi cyhoeddi adroddiadau o bwys ar nifer o bynciau sy'n gysylltiedig â grantiau cyhoeddus, ac fe'u rhestrir yn **Atodiad 2**. Maent yn cynnwys astudiaethau ar fuddsoddiadau mawr o bwrs y wlad, megis y Cynllun Cymunedau yn Gyntaf a phrosiectau cyfalaf a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae rhai o'r adroddiadau hyn wedi cael eu hysgrifennu mewn ymateb i faterion difrifol sydd wedi bod yn achos pryder i'r cyhoedd, megis y materion a godwyd mewn cysylltiad â chynllun Cymad Cyf a Phartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc yn Wrecsam.
- 5 Rydym yn dwyn ynghyd yr holl brofiad hwn yn yr adroddiad hwn i ateb y cwestiwn, *'A gaiff grantiau'r sector cyhoeddus yng Nghymru eu rheoli'n dda?'*



- 6 Ein casgliad cyffredinol o'n gwaith yw bod llawer o grantiau yn cael eu rheoli'n wael, gyda'r rhai sy'n rhoi arian a'r rhai sy'n ei dderbyn yn methu â dysgu o gamgymeriadau yn y gorffennol. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth glir o awydd i wella ac mae Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa dda i barhau i'w helpu i wneud hynny, yn rhannol drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn.
- 7 Mae llawer o gynlluniau grant yn rhy gymhleth ac anaml y mae'r rhai sy'n rhoi arian a'r rhai sy'n ei dderbyn yn dysgu o fethiannau yn y gorffennol. Mae cymhlethdod amodau cynlluniau a'r anghysondeb rhwng amserlenni ariannu, y cyfeirir ati'n aml fel 'y ddrysfa ariannu', yn aml, yn ei gwneud yn anodd i ymgeiswyr weithredu'n effeithiol i sicrhau arian a chyflawni eu hamcanion. Mae'n achos pryder i ni nodi bod yr enghreifftiau amlwg o reoli grantiau'n wael yn rhannu gwendidau cyffredin sy'n codi dro ar ôl tro. Ymhlith y gwendidau allweddol a nodwyd gennym mae methiant i ystyried yn ddigonol hyfywedd, adnoddau a gallu'r rhai sy'n cael y grant. Mewn sawl achos, bu diffyg eglurder o ran y meini prawf a'r amcanion. Rydym hefyd wedi nodi nifer o achosion o fethiant i asesu a lliniaru risgiau'n ddigonol. Mae gwendidau yn y prosesau monitro parhaus hefyd yn chwarae rhan amlwg yn y rhestr o faterion sy'n codi dro ar ôl tro. Yn bwysig ddigon, mae cyllidwyr wedi methu â gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd wrth gynllunio cynlluniau newydd.
- 8 Mae'r ffordd y rheolir grantiau'n amrywio'n sylweddol o ran ansawdd ar lefel awdurdodau lleol ac anaml y mae cyllidwyr yn mynd i'r afael â pherfformiad gwael neu wneud gwaith dilynol pan fydd ceisiadau wedi'u hamodi. Ond, er gwaethaf y cynnydd araf, rydym wedi nodi bod llawer o gyllidwyr - a rhai o'r rhain sy'n derbyn grantiau - yn dechrau gwella eu trefniadau ar gyfer rheoli grantiau er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian. Yn benodol, gallai Prosiect Rheoli Grantiau Llywodraeth Cymru hwyluso rhai gwelliannau sylweddol, o ran arbed costau ac effeithlonrwydd prosesau. Mae rhai cynghorau hefyd wedi llwyddo i wella eu trefniadau ar gyfer rheoli grantiau, ond nid yw eraill yn dilyn eu hesiampl.
- 9 Er bod cyllidwyr wedi cydnabod ers peth amser fanteision mabwysiadu dulliau eraill o ariannu o dan rai amgylchiadau, mae arian grant penodol wedi parhau i chwarae rhan amlwg yn ymarferol. Mae'n bosibl bod pryderon y rhai sy'n derbyn grantiau wedi dylanwadu ar hyn, ac mae'r trydydd sector yn benodol yn pryderu y gall prosesau caffael fod yn arafach a mynd â gormod o adnoddau. Mae'n ddigon posibl mai arian grant fydd y dull mwyaf priodol o ariannu o hyd yn y rhan fwyaf o achosion. Pe na bai hynny'n wir, dylai cyllidwyr sicrhau eu bod wedi ystyried effaith bosibl newid i'r dull ariannu yn llawn ynghyd â'r angen i leihau unrhyw ganlyniadau annisgwyl i'r eithaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod cyllidwyr a'r rhai sy'n derbyn grantiau yn parhau i fod â meddwl agored ynglŷn â'r dull ariannu gorau ym mhob achos.

Argymhellion

Argymhellwn y dylai cyllidwyr grantiau, sydd yn cynnwys Llywodraeth Cymru:

- 1** Ystyried symleiddio eu portffolio o grantiau yn gyflymach drwy gyfuno cynlluniau lle bo hynny'n briodol, er mwyn gwireddu effeithlonrwydd mewn costau gweinyddu ac yn y costau cudd i bwrs y wlad a ysgwyddir gan ymgeiswyr aflwyddiannus.
- 2** Datblygu systemau i sicrhau bod y ffordd yr ymdrinnir ag arian grant ac y gweithredir cynlluniau grant mor gyson â phosibl drwy'r holl adrannau mewnol a, lle y bo modd, â chyllidwyr eraill.
- 3** Gweithio gyda chyllidwyr eraill i ddysgu o brofiad, datblygu cynlluniau sy'n ategu ei gilydd a chydgysylltu amserlenni ymgeisio.
- 4** Gweithio'n unigol ac ar y cyd i sicrhau bod gwybodaeth am grantiau yn fwy eglur a hygyrch i ymgeiswyr ac annog cymunedau i ymwneud â hwy mewn ffordd briodol.
- 5** Sicrhau y caiff risgiau sy'n gysylltiedig â hyfywedd, adnoddau a gallu ymgeiswyr eu hystyried ar y cam ymgeisio, wedi'u lliniaru gan gymorth ychwanegol lle y byddai hyn yn gost-effeithiol ac wedi'u monitro'n ofalus wrth i'r prosiect gael ei gyflawni.
- 6** Sicrhau bod canlyniadau prosiectau a safonau rheoli prosiect a rheoli ariannol wedi'u diffinio'n glir a bod cytundeb ysgrifenedig yn eu cylch cyn i arian gael ei ryddhau.
- 7** Ystyried rhinweddau cymharol dulliau gweithredu eraill heblaw am arian grant, megis caffael, benthyciadau a buddsoddiadau, cyn ymrwymo i gynllun grant newydd neu i barhau â chynllun grant fel y ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r amcanion a nodwyd.
- 8** Cymryd camau cadarn pan fydd gordaliadau neu pan fydd grantiau wedi eu camddefnyddio drwy atal arian lle y bo angen, drwy adennill symiau priodol ac, os parheir i roi arian, drwy atgyfnerthu'r gofynion ar y rhai sy'n ei dderbyn a'u trefniadau monitro eu hunain cyn i arian ychwanegol gael ei ryddhau.



Rhan 1 – Mae Cymru yn gwneud defnydd helaethach o arian grant penodol na rhannau eraill o'r DU ac mae nifer y cynlluniau a lefel y costau gweinyddu yn gymharol uchel

- 1.1** Yn yr adroddiad hwn, er y cyfeirir at fathau eraill o ariannu weithiau fel 'grantiau', ystyr 'grantiau' yn ein tyb ni yw trefniadau lle mae'r corff ariannu yn ei gwneud yn ofynnol i'w arian gael ei ddefnyddio at ddiben penodol ac yn unol â rheolaethau llym fel y'u nodwyd yn ei delerau ac amodau. Gelwir y math hwn o arian grant yn grant 'wedi'i neilltuo' neu 'grant penodol' hefyd. Mae grantiau yn ffordd allweddol i Lywodraeth Cymru a chyllidwyr statudol eraill gyflawni eu blaenoriaethau a'u canlyniadau strategol. Prif bwyslais yr adroddiad yw grantiau penodol a ddyfernir gan Lywodraeth Cymru, ond mae hefyd yn ystyried y grantiau penodol sylweddol a ddyfernir gan yr amrywiol gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.
- 1.2** Rydym yn cyhoeddi adroddiad ar wahân ar y ffordd y rheolir grantiau o dan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, ond mae'n bwysig nodi'r rhain fel ffynhonnell sylweddol arall o arian i Gymru. Yn ogystal ag arian grant penodol domestig, mae'r cylch cyfredol o chwe blynedd o gymorth grant penodol Ewropeaidd yn werth tua £3 biliwn hyd at 2013, y mae'n debygol y caiff ei ddisodli gan raglen gydgyfeirio newydd. Er bod y rhan fwyaf o brosiectau yn y cylch ariannu hwn yn cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru, mae awdurdodau lleol yn bartneriaid cyflawni pwysig mewn nifer o brosiectau arwyddocaol.
- 1.3** Hyd yn oed cyn cyflwyno llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru yn 1999, roedd grantiau yn nodwedd amlwg yn y dirwedd ariannu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Roedd yr hen Swyddfa Gymreig cyn datganoli wedi neilltuo arian yn helaeth o ran ariannu cynghorau. Ond fel y dengys **Arddangosyn 3** ar dudalen 13, cafwyd tuedd tuag at lefelau sylweddol uwch o neilltuo yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.
- 1.4** Y 22 o awdurdodau unedol sy'n derbyn y symiau mwyaf o arian grant penodol gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru, a daw'r rhan fwyaf o arian llywodraeth leol o Lywodraeth Cymru. Yn 1999-2000 cafodd llywodraeth leol grantiau refeniw penodol o tua £68.4 miliwn gyda grantiau cyfalaf gwerth cyfanswm o £129 miliwn¹. Yn 2011-12, roedd y grantiau penodol hyn yn werth £760 miliwn ar gyfer refeniw a £456 miliwn ar gyfer cyfalaf².

Er nad yw'n glir faint o grantiau sy'n cael eu dyfarnu i gyrff cyhoeddus yng Nghymru neu ganddynt, ym mis Medi 2011 roeddem yn ymwybodol o fwy na 500 o wahanol gynlluniau, gwerth tua £2 biliwn i gyd

- 1.5** Mae llawer o gynlluniau grant yn gweithredu yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Mae'r rhain yn tueddu i agor a chau ar wahanol adegau ac mae'r cynlluniau eu hunain yn aml yn newid eu cymeriad dros amser. Felly, mae'n anodd iawn pennu'n union faint o gynlluniau grant a weithredir yng Nghymru ar unrhyw adeg benodol.
- 1.6** Mewn adroddiad gan Pricewaterhouse Coopers a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010: *Adolygu cost gweinyddu'r system addysg yng Nghymru – Cam 1 (Ebrill 2010)*³ nodwyd nad yw'r 'union nifer o grantiau sy'n bodoli yn glir', ond amcangyfrifwyd bod Adran Plant, Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cymru yn gweithredu 108 ar gyfer 2006-07. Yn fwy diweddar, nododd yr Achos Busnes dros Brosiect Rheoli Grantiau Llywodraeth Cymru 148 o grantiau addysg gwahanol.
- 1.7** Yn yr Achos Busnes dros Brosiect Rheoli Grantiau Gwell Llywodraeth Cymru, cesglir gwybodaeth hefyd am yr holl gynlluniau unigol a restrir ar ei system e-Grant. Ar draws gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru ei hun yn ystod 2009-10, roedd tua 480 o gynlluniau unigol yn cael eu gweithredu, a oedd yn werth dros £2 biliwn y flwyddyn i gyd, fel y dengys [Arddangosyn 1](#).

- 1.8** Mae cynlluniau grant Llywodraeth Cymru yn amrywio o ran maint, gwerth, cymhlethdod, modelau cyflawni a chostau gweinyddol. Maent yn amrywio o grantiau unigol untro i brosiectau cymhleth mewn partneriaeth a phrosiectau a ariennir gan sawl grant. Noda dogfen Achos Busnes Llywodraeth Cymru fod 21 o'r cynlluniau grant hyn yn unig yn cyfrif am tua 67 y cant o gyfanswm y gwariant a gofnodwyd. Cyfeiria hefyd at ymarfer tebyg yn Lloegr, a ganfu fod 90 y cant o wariant yn ariannu 12 o gynlluniau yn unig, gyda'r 10 y cant arall yn ariannu dros 550 o gynlluniau eraill.
- 1.9** Mae ein hadolygiad o adroddiadau blynyddol a chyfrifon 2010-11 y gwahanol gyrff cyhoeddus a noddir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu eu bod hwythau hefyd yn dosbarthu arian grant penodol Cymru i gefnogi amrywiaeth eang o'u cynlluniau eu hunain [Arddangosyn 2](#).

Yn wahanol i weinyddiaethau eraill y DU, nid yw Llywodraeth Cymru wedi dileu cyfyngiadau ar lefel sylweddol o arian grant i awdurdodau lleol, er ei bod yn lleihau nifer y cynlluniau grant

- 1.10** Fel y dengys [Arddangosyn 3](#), ers creu gweinyddiaeth ddatganoledig i Gymru yn 1999, mae Llywodraethau olynol yng Nghymru wedi gwneud defnydd cynyddol o grantiau penodol fel cyfran o'r ddarpariaeth gyffredinol o arian grant i awdurdodau lleol.



Arddangosyn 1 - Cynlluniau Grant a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru, 2009-10

Adran	Cyfanswm y Gyllideb Adrannol	Nifer y cynlluniau grant gweithredol	Cyfanswm gwerth ceisiadau am wariant grant 2009-10	Grantiau fel % o gyfanswm y Gyllideb Adrannol
APADGOS (ysgolion, addysg ôl-16, Cymorth a gwasanaethau ieuenctid)	£1,994 miliwn	112 o gynlluniau o dan £1 miliwn 32 o gynlluniau rhwng £1 miliwn a £25 miliwn 4 cynllun dros £25 miliwn Cyfanswm 148	£811 miliwn	41%
CGCLI (llywodraeth leol, diwylliant, diogelwch cymunedol)	£3,421 miliwn	76 o gynlluniau o dan £1 miliwn 14 o gynlluniau rhwng £1 miliwn a £25 miliwn 3 chynllun dros £25 miliwn Cyfanswm 93	£236 miliwn	7%
AIGC (iechyd a gwasanaethau cymdeithasol)	£4,994 miliwn	58 o gynlluniau o dan £1 miliwn 23 o gynlluniau rhwng £1 miliwn a £25 miliwn 4 cynllun dros £25 miliwn Cyfanswm 85	£263 miliwn	5%
AETH (technoleg, arloesedd, menter a thrafnidiaeth)	£1,598 miliwn	62 o gynlluniau o dan £1 miliwn 15 o gynlluniau rhwng £1 miliwn a £25 miliwn 4 cynllun dros £25 miliwn Cyfanswm 81	£310 miliwn	19%
Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Dyfodol Cynaliadwy) (tai, amaethyddiaeth, gwastraff, llifogydd a diogelu'r arfordir a'r amgylchedd)	£598 miliwn	47 o gynlluniau o dan £1 miliwn 22 o gynlluniau rhwng £1 miliwn a £25 miliwn 6 chynllun dros £25 miliwn Cyfanswm 75	£430 miliwn	72%
Cyfanswm Llywodraeth Cymru	£12.6 biliwn	482 o gynlluniau	£2.05 biliwn	16%

Noder

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar yr amrywiol bortffolios adrannol o fewn Llywodraeth Cymru a fodolai hyd at fis Mai 2011

Ffynhonnell: Achos busnes Llywodraeth Cymru dros y Prosiect Rheoli Grantiau

Arddangosyn 2 - Enghreifftiau o gynlluniau grant mawr a weithredir gan gyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Dosbarthwyd £12 miliwn o dan ei 'Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Ymchwil'.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Dosbarthodd tua £29 miliwn mewn grantiau refeniw blynyddol i sefydliadau penodol a hefyd o dan gynlluniau megis 'Y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd' a'r 'Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol'; Roedd grantiau i tua 40 o unigolion yn amrywio o £600 i £20,000. Rhoddwyd bron 140 o grantiau i sefydliadau celfyddydau, gyda grantiau refeniw yn amrywio o £19,000 i £1,093,000.

Cyngor Chwaraeon Cymru

Dyfarnodd £20 miliwn i'w bartneriaethau â llywodraeth leol a'i raglenni ar gyfer Perfformiad a Rhagoriaeth, Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion; Sportsmatch; Let's Walk Cymru; ac ar gyfer datblygu pobl a rhaglenni.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Dosbarthodd tua £10 miliwn i 13 o gynlluniau, yn bennaf i gefnogi 'bioamrywiaeth', 'ymwybyddiaeth', 'yr amgylchedd i bawb', 'strategaethau cymunedol' a mentrau arbennig y Cyngor.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Dosbarthodd tua £4.7 miliwn mewn grantiau i fwy na 50 o gyrff i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a rhoddodd £3 miliwn arall i Awdurdodau Addysg Lleol i hyrwyddo addysg Gymraeg.

Cyngor Gofal Cymru

Darparodd ychydig o dan £5 miliwn ar gyfer cymorth hyfforddiant a grantiau eraill. O'r swm hwn, talwyd ychydig dros £3 miliwn i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol o dan ei gynllun 'bwrsari'.


Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Dosbarthodd ychydig o dan £5 miliwn o dan gynllun 'Glastir' er mwyn rheoli tir yn gynaliadwy a dau gynllun i hyrwyddo'r defnydd buddiol o goetiroedd.

Ffynhonnell: Nodiadau i gyfrifon ariannol cyrff 2010-11



Arddangosyn 3 - Cymharu'r elfen grant o arian Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol fel canran o'r holl arian refeniw sy'n cael ei dderbyn, 1999-2000 a 2010-11



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ystadegau ariannol Llywodraeth Cymru

1.11 Gwelir enghraifft o'r defnydd o grantiau penodol i lywio polisi ym maes gwasanaethau rheoli gwastraff, lle mae Llywodraeth Cymru yn darparu arian i awdurdodau lleol o dan ei Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy, yn ogystal ag arian grant amhenodol arall. O dan reolau cynllun y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy ar gyfer 2011-12⁴ gwaherddir defnyddio'r arian hwn ar gyfer 'cyfleusterau adfer deunyddiau brwnt, lle y tynnir deunyddiau y gellir eu hailgylchu o'r gwastraff cymysg gweddilliol nad ydynt wedi cael eu didoli cyn hynny'. Yn ei hanfod, mae hyn yn cymhell awdurdodau lleol i symud oddi wrth gasglu gwastraff ailgylchu ar ymyl y ffordd nad yw wedi'i ddi-doli ac yn eu hannog i fynnu bod deiliaid cartrefi yn didoli eu gwastraff y gellir ei ailgylchu a'i roi mewn cynwysyddion

ar wahân i'w gasglu - dull gweithredu sy'n fwy cynaliadwy yn nhyb Llywodraeth Cymru. Ar y llaw arall, teimla rhai awdurdodau lleol y gall gorfodi'r dull gweithredu hwn beri i lai o ddeiliaid cartrefi gymryd rhan mewn cynlluniau ailgylchu ar ymyl y ffordd gan beryglu eu gallu i gyflawni targedau ailgylchu cenedlaethol.

1.12 Mewn cyfres o sylwadau i Lywodraeth Cymru gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru⁵, mae awdurdodau lleol wedi'i gwneud yn glir eu bod yn cael y defnydd cynyddol o arian grant penodol yn rhy gyfyngol, a hoffent gael rhyddid i wario arian a threfnu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf priodol yn eu tyb hwy yng ngoleuni blaenoriaethau a nodwyd yn lleol.

- 1.13** Er mwyn cefnogi setliad arian refeniw llywodraeth leol 2004-05, cytunodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 'Brotocol' ar gyfer grantiau penodol⁶. Amcanion y naill a'r llall oedd:
- a** lleihau nifer y grantiau penodol, gwerth y grantiau a hyd y grantiau cymaint â phosibl;
 - b** cael cymaint o sicrwydd â phosibl, ac mor gynnar â phosibl yn ystod y flwyddyn ariannol, ynghylch y swm o arian y gallai awdurdodau lleol ddisgwyl ei gael drwy grantiau penodol;
 - c** llunio strategaeth ymadael glir ar gyfer pob grant penodol.
- 1.14** Nododd y Protocol 'brawf mynediad' ar gyfer grantiau penodol newydd arfaethedig a rhestr wirio ar gyfer adolygiad a argymhellir bob tair blynedd i ystyried a ddylid parhau â'r grantiau penodol presennol. Y nod oedd cysoni anghenion Llywodraeth Cymru ac anghenion llywodraeth leol. Datblygwyd y Protocol ochr yn ochr â system newydd o gytundebau polisi a oedd yn 'canolbwyntio ar ganlyniadau'. Telir Grant Cytundeb Canlyniadau pro rata i bob awdurdod lleol yn ôl y graddau y mae'n llwyddo i gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw â Llywodraeth Cymru.
- 1.15** Ers i'r Protocol gael ei ddatblygu, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ystyried pa rai o'i grantiau penodol y gellid eu trosglwyddo i'r setliad cyffredinol. Fodd bynnag, rhwng 2005-06 a 2009-10 dim ond nifer gymharol fach (sy'n lleihau) o grantiau cymharol fach sydd wedi cael eu trosglwyddo mewn gwirionedd, fel y dengys [Arddangosyn 4](#)⁷.
- 1.16** Ym mis Tachwedd 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddull newydd o ariannu awdurdodau lleol⁸. Ei nod oedd parhau i leihau biwrocratiaeth a faint o arian a neilltuwyd, tra'n cydnabod bod angen eglurder a disgresiwn lleol a rheolaeth briodol dros anghenion traws-sector a blaenoriaethau cenedlaethol penodol.
- 1.17** Ym mis Mai 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Cyd-Ddealltwriaeth Newydd Rhwng Llywodraeth Y Cynulliad a Llywodraeth Leol Yng Nghymru*⁹ lle y nododd:
- "Yn unol â chyd-brotocol Llywodraeth y Cynulliad a CLILC, mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau'r nifer o grantiau penodol, a thrwy hynny drosglwyddo arian i'r Grant Cymorth Refeniw ar y cyfle cyntaf"*.
- Yn sicr ymddengys fod hwn wedi bod yn sbardun newydd i leihau faint o arian a neilltuwyd, oherwydd gwelwyd mwy o arian yn cael ei drosglwyddo o arian grant penodol i arian grant amhenodol yn ystod y 18 mis diwethaf, fel y dengys [Arddangosyn 5](#).
- 1.18** Gan droi at rannau eraill o'r DU, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban goncordat ariannol newydd â Llywodraeth leol yn 2008, a oedd yn amodol ar gynghorau yn yr Alban yn cytuno i rewi'r dreth gyngor¹⁰. Fel rhan o'r pecyn ariannu, diddymwyd y rhan helaeth o grantiau wedi'u clustnodi yn yr Alban. Dros y tair blynedd, o 2008-09 i 2010-11, ymrwymodd Llywodraeth yr Alban i dorri grantiau penodol o £2.7 biliwn i £0.3 biliwn yn unig, ynghyd â gostyngiad mawr yn y baich cofnodi ar gynghorau unigol. Dim ond pedwar grant penodol a restrir yn setliad yr Alban ar gyfer 2011-12¹¹, ac o beidio â chynnwys cyllid yr heddlu, mae'r tri chynllun arall ond yn gwneud cyfanswm o £13 miliwn.



Arddangosyn 4 - Grantiau penodol a ddaeth yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw blynyddol neu gynlluniau grant amhenodol Llywodraeth Cymru rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2010

Blwyddyn	Cynlluniau a ddaeth yn rhan o arian grant amhenodol	Cyfanswm (£ miliwn)
2005-06	Plant yn Gyntaf - y cam cyntaf: £14 miliwn Cronfa Datblygu Cerddoriaeth: £1 miliwn Diddymu Lwfansau Preswyl: £24.8 miliwn	£39.8 miliwn
2006-07	Plant yn Gyntaf - yr ail gam: £15 miliwn Grant Anableddau Dysgu: £30 miliwn Grant Adnoddau Ymarferol: £20 miliwn Grant Gofalwyr: £6 miliwn Arian referniw ychwanegol ar gyfer ysgolion: £20 miliwn	£91 miliwn
2007-08	Plant yn Gyntaf - y trydydd cam: £16 miliwn	£16 miliwn
2008-09	Dim	£0
2009-10	Dim	£0

Arddangosyn 5 - Grantiau penodol a ddaeth yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw blynyddol neu gynlluniau grant amhenodol eraill Llywodraeth Cymru ers 1 Ebrill 2010

Blwyddyn	Cynlluniau a ddaeth yn rhan o arian grant amhenodol	Cyfanswm (£ miliwn)
2010-11	Grant arbennig ysgolion: £9 miliwn Grant costau Ynni Ysgolion: £2 miliwn Strategaeth Pobl Hŷn: £1.7 miliwn Codi tâl tecach: £10 miliwn Grant gofalwyr iechyd meddwl: £4 miliwn	£26.7 miliwn
2011-hyd heddiw	Elfennau o gronfa Cymorth: £5.5 miliwn Ffioedd Llys Cyfraith Plant a Theulu: £2.6 miliwn Arian i weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008: £2.5 miliwn	£10.6 miliwn

1.19 Yn Lloegr, mae llawer o fentrau dros y degawd diwethaf wedi cyflwyno ychydig o hyblygrwydd a rhyddid o fewn cyfundrefnau grant penodol er mwyn ysgogi gwell perfformiad. Ym mis Tachwedd 2010, o dan yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant trosglwyddwyd dros 80 o grantiau penodol yn Lloegr, gwerth tua £7 biliwn i gyd bob blwyddyn, i setliad ariannu cyffredinol llywodraeth leol¹². Felly torrwyd nifer y grantiau penodol o tua 90 i lai na 10, heb gynnwys y grantiau i ysgolion, yr heddlu ac awdurdodau tân. Fodd bynnag, ers i hynny ddigwydd mae rhai grwpiau pwysu wedi honni nad yw arian grant a arferai gael ei glustnodi ar gyfer anghenion penodol eu haelodau (megis gofal seibiant i ofalwyr¹³ neu deithwyr sy'n sipswn) yn eu cyrraedd mwyach. Bu hefyd honiadau bod symiau sylweddol a oedd wedi'u clustnodi gynt ar gyfer pobl sy'n agored i niwed o dan y rhaglen 'Cefnogi Pobl' yn cael eu defnyddio at ddibenion eraill oherwydd pwysau ariannol ar gyllidebau yn gyffredinol¹⁴.

1.20 Mae ein gwaith yng Nghymru hefyd wedi dangos bod rhai risgiau ynghlwm wrth unrhyw ymgais i lacio ar y rheolaethau dros wario arian grant. Yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, *Prosiectau Trafnidiaeth Mawr*, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011, gwelwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi nodi'n ddigon clir sail ei hymwneud â phrosiectau a ariennir drwy ei Grant Trafnidiaeth ond a gyflawnir gan lywodraeth leol. O ganlyniad i hynny, anghyson fu ymwneud swyddogion Llywodraeth Cymru â'r prosiectau hyn. Nid oedd Llywodraeth Cymru ychwaith wedi egluro ei disgwyliadau o ran trefniadau rheoli prosiect lleol ar gyfer y cynlluniau hynny a ariennir gan y Grant Trafnidiaeth, a hynny'n rhannol oherwydd y farn nad lle Llywodraeth Cymru oedd rheoli'n fanwl y ffordd yr oedd awdurdodau lleol yn cyflawni'r prosiectau hyn.

1.21 Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol yn gynharach eleni¹⁵, cydnabu Llywodraeth Cymru fod y rheolaeth fwy cyfyngedig o'r brig i lawr a arferid yn y gorffennol wedi cyfrannu at gostau cynyddol y prosiectau mawr a ariannwyd gan y Grant Trafnidiaeth a drafodwyd yn ein hadroddiad, o'u cymharu ag amcangyfrifon cynnar. Fodd bynnag, nododd ein hadroddiad a hefyd dystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y camau gweithredu a gymerwyd dros y ddwy flynedd flaenorol i arfer mwy o reolaeth dros raglen y Grant Trafnidiaeth a'r ffordd y cyflawnir Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd yn y dyfodol.

Caiff costau gweinyddu a rheoli grantiau eu rhannu rhwng cyllidwyr a'r rhai sy'n derbyn y grantiau ac fel arfer maent yn cyfrif am o leiaf 10 y cant o'r arian

1.22 Er i ychydig o astudiaethau cadarn o gostau gweinyddu cynlluniau grant gael eu cynnal, mae gwahanol gyrff sy'n talu grantiau wedi ceisio eu hamcangyfrif yn fras. Dengys *Arddangosyn 6* isod yr amrywiad mawr a geir yn y gwahanol amcangyfrifon yr ydym wedi dod ar eu traws yn ystod ein gwaith.

1.23 Mae'r amrediad hwn yn awgrymu bod costau gweinyddu grantiau yn cyfrif am o leiaf 10 y cant o gyfanswm yr arian a ddyfarnwyd mewn rhai cynlluniau. Mae cyllidwyr yn dod yn gynyddol ymwybodol bod angen lleihau costau gweinyddu¹⁶. Er enghraifft, mae Gweinidog Loteri'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'n ddiweddar y byddai'n ofynnol i ddosbarthwyr y Loteri yn Lloegr a ledled y DU dorri costau gweinyddu eu Grant Loteri i



Arddangosyn 6 - Costau amcangyfrifedig gweinyddu cynlluniau grant

Llywodraeth Cymru (Achos Busnes y Prosiect Rheoli Grantiau)	hyd at 10% o werth y grant
Cronfa Loteri Fawr (Gwerthusiad o Grantiau Bach yn ôl Thema Sefydliad Astudiaethau Polisi) ¹⁷	5% i 25% o werth y grant
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Cyfarfod Cyngor Partneriaeth Gorffennaf 2010)	5% o werth y grant

bump y cant yn unig. Bydd yn ofynnol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri leihau ei chostau cyn mis Mawrth 2013, ond bydd y Gronfa Loteri Fawr, Cyngor Celfyddydau Lloegr a Sport England/UK Sport ar ei ffurf unedig yn cael 12 mis ychwanegol i ganiatáu ar gyfer newidiadau o ran incwm, ad-drefnu ac uno yn y drefn honno.

- 1.24** Mae amrywiaeth mawr o weithgareddau yn cyfrannu at gostau gweinyddu cyllidwyr, gan gynnwys:
- a** pennu meini prawf a phrosesau ymgeisio;
 - b** datblygu'r ffordd o ddsbarthu arian;
 - c** hyrwyddo'r cynllun;
 - ch** ymholiadau ac ymgynghoriadau;
 - d** monitro a gwerthuso.
- 1.25** Mae ymgeiswyr am grant, o'u rhan hwy, yn ysgwyddo costau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chynllunio cais, hyd yn oed os bydd eu ceisiadau yn aflwyddiannus yn y pen draw. Hefyd mae'r rhai sy'n derbyn arian yn ysgwyddo costau cofnodi, cyfrifyddu, hunanfonitro a gwerthuso. Byddai costau gweinyddu o tua 10 y cant yn golygu, yn gyffredinol, bod rhwng £60 a £70 miliwn bob blwyddyn cael ei wario ar reoli a gweinyddu grantiau i lywodraeth leol yng Nghymru. O ran grantiau Llywodraeth Cymru, er enghraifft,

mae'n ofynnol i'r sawl sy'n derbyn grant dalu ffioedd ardystio archwilwyr hefyd. Mae'r costau hynny yn cyfrif am rhwng 0.5 y cant ac un y cant o werth y grant.

- 1.26** Mae'n amlwg bod trefn effeithlon ac effeithiol ar gyfer gweinyddu grantiau o fudd i gyllidwyr a'r rhai sy'n eu derbyn fel ei gilydd. Yn yr Achos Busnes dros ei Brosiect Rheoli Grantiau, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y gallai gwell prosesau a safoni trefniadau gweinyddu ar gyfer grantiau i lywodraeth leol esgor ar arbedion mewnol parhaus o tua £3 miliwn bob blwyddyn o 2013-14. Disgwylwyd i tua £2 filiwn o'r swm hwn ddeilio o well trefniadau gweinyddu a thua £1 filiwn o ddileu dyblygu yn systemau TG Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid yw'r rhagamcan cychwynnol hwn o arbedion, sef gostyngiad o bump y cant ar y mwyaf mewn costau gweinyddu cyfredol, yn ddigon uchelgeisiol.
- 1.27** O gofio'r arbedion maint y gellir eu cyflawni drwy gael llai o gynlluniau grant sy'n symlach ac yn fwy o faint, mae'n rhesymol disgwyl i Lywodraeth Cymru geisio nodi arbedion effeithlonrwydd ar raddfa fwy. Yn wir, yn y tymor canolig, mae'r Achos Busnes yn rhagweld arbedion llawer mwy gan honni: *“bydd y cynllun yn ysgogi arbedion gwerth £31 miliwn yn ôl amcangyfrif ceidwadol”* a: *“bydd y cyfnod talu'n ôl yn un byr”*.

Rhan 2 – Caiff llawer o gynlluniau grant eu rheoli'n wael, anaml mae gwersi yn cael eu dysgu ac anaml mae cyllidwyr yn llwyddo i ddelio â pherfformiad gwael y derbynwyr grantiau

2.1 Mae rheoli grantiau'n dda yn rhywbeth darbodus ac effeithlon, ac mae'n helpu'r corff sy'n talu'r grant a'r sawl sy'n ei dderbyn i gyflawni canlyniadau arfaethedig y cynllun grant i bob diben. Fodd bynnag, rydym wedi gweld bod y ffordd y rheolir grantiau yng Nghymru yn aml yn methu â chyrraedd y safonau hyn. Ceir arwyddion bod yr ystod o gynlluniau grant yng Nghymru a'u cymhlethdod yn ei gwneud yn anodd i ymgeiswyr ddeall yr amrywiol amodau sy'n gysylltiedig ag arian grant.

2.2 Mae ein gwaith archwilio ar geisiadau am grant a gyflwynwyd i'w hardystio hefyd yn dangos nad yw cyllidwyr grant yn gwneud y canlynol:

- a** adennill grantiau nas gwariwyd neu a wariwyd yn amhriodol; neu
- b** mynd ar drywydd materion sydd wedi cael eu hamodi yn adroddiadau archwilwyr.

Mae'r ddrysf ariannu yn ei gwneud yn anodd i ymgeiswyr weithredu'n effeithiol i sicrhau arian a chyflawni eu hamcanion

2.3 Mewn Cylchlythyr gan Gymdeithas Llywodraeth Leol *Delivering More for Less: Maximising Value in the Public Sector (2008)*¹⁸ roedd adran gyfan yn ymwneud â dyrannu arian a'r angen brys i symleiddio cymhlethdodau ariannu ar gyfer ymgeiswyr a'r rhai sy'n derbyn grantiau. Mae'n cynnig enghraifft o gylchlythyr gan yr Adran Plant

Ysgolion a Theuluoedd yn Lloegr¹⁹ a nododd dros 50 o aelodau o staff yr adran y dylai awdurdodau lleol gysylltu â hwy mewn perthynas â 70 o grantiau gwahanol.

2.4 Yng Nghymru, ategwyd y farn hon gan benaethiaid ac undebau llafur athrawon i 'Ymchwiliad i Grantiau wedi'u Neilltuo' y Pwyllgor Cyllid, ym mis Mawrth 2009²⁰:

"Er bod grantiau o'r fath yn darparu arian ychwanegol sydd ei angen yn ddirfawr ac sydd i'w groesawu, mae gan [aelodau Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru] bryderon mawr ynglŷn â'r nifer gynyddol o grantiau o'r fath a'r ffordd y caiff y system ei gweinyddu:

- i** Mae prosesau ymgeisio am grantiau, a'r systemau gwerthuso ac atebolrwydd sy'n gysylltiedig â hwy, yn hynod fiwrocraidd i'w gweinyddu.
- ii** Mae ysgolion yn gynyddol ddibynol ar grantiau penodol ar gyfer gweithgareddau, a ddylai fod yn rhan o arian craidd ysgol.
- iii** Mae natur ansicr a byrdymor grantiau yn ei gwneud yn anodd i ysgolion wneud gwaith cynllunio ariannol effeithiol a strategol ar gyfer y tymor hwy."

2.5 Mae map gwariant yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) o'i rhaglen ar gyfer 2008-09 yn nodi i Adran wneud taliadau i 8,000 o unigolion a sefydliadau. Roedd llawer o'r taliadau hyn yn ymwneud â grantiau bach o werth isel. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi patrwm cyson o bryderon gan ymgeiswyr a'r rhai sy'n derbyn grantiau ynglŷn â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweinyddu cynlluniau grant. Mae ein gwaith yn nodi bod angen iddynt gael ceisiadau symlach, llai amwys a mwy cyson am wybodaeth. Mae ymgeiswyr a'r rhai sy'n derbyn grantiau am gael



amserlenni mwy cyson ar gyfer cynlluniau arian grant. Daeth y themâu hyn i'r amlwg yn enwedig yn ystod ein gwaith ar brosiectau cyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru.

- 2.6** Yn ein gwaith, rydym wedi nodi diffyg cydgysylltu gan gyllidwyr a'r rhai sy'n derbyn grantiau mewn perthynas â rhaglenni trawsbynciol. Mae ein gwaith ar Cymunedau yn Gyntaf wedi dangos bod yn rhaid i bob un o adrannau'r Llywodraeth yn ogystal â'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan roi blaenoriaeth amlwg i wella ymwybyddiaeth a chydgyssylltu.
- 2.7** Mae'r trydydd sector hefyd yn wynebu anawsterau tebyg gyda chymhlethdodau arian grant Llywodraeth Cymru a'r ffordd y caiff ei weinyddu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r anhawster hwn drwy gomisiynu datblygiad porth grantiau ar-lein o'r enw *Cyllid Cynaliadwy Cymru*²¹. Mae'r porth yn cynnig cronfa ddata chwiliadwy o gyfleoedd ariannu, cyngor a chymorth yn y DU o ran codi arian. Mae'n datgan ei fod yn cynnig "cyngor a chanllawiau ymarferol i sefydliadau sydd am ddatblygu ymagwedd entrepreneuriaidd tuag at ariannu".
- 2.8** Bydd yn gynyddol bwysig sicrhau mwy o eglurder a chydgyssylltu ar draws cynlluniau wrth i dechnegau cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth gael eu defnyddio i ategu'r gwaith o ddarparu amrywiaeth cynyddol o wasanaethau.

Mae enghreifftiau amlwg o reoli grantiau'n wael yn rhannu gwendidau cyffredin sy'n codi dro ar ôl tro

- 2.9** Ers 2005, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi 18 o adroddiadau cenedlaethol ar gynlluniau, rhaglenni neu brosiectau lle y gwnaed buddsoddiadau cyhoeddus mawr drwy grantiau penodol. Rhestrir yr adroddiadau hyn yn **Atodiad 2**, ac maent yn tynnu sylw at y canlyniadau andwyol sy'n gysylltiedig â rheoli grantiau yn wael, sy'n cynnwys gwastraffu arian, colli cyfleoedd a niweidio enw da. Mae nifer o wendidau cyffredin wedi dod i'r amlwg yn yr astudiaethau hyn ac fe'u hystyrir isod.

Bu methiannau i ystyried yn ddigonol hyfywedd, adnoddau a gallu'r rhai a oedd yn derbyn grantiau

- 2.10** Un o'r gwendidau mwyaf cyffredin fu'r methiant gan gyllidwyr i asesu'n briodol hyfywedd yr ymgeiswyr grantiau. Nododd ein hadroddiad ar *Ganolfan Mileniwm Cymru*, er enghraifft, fod angen i ddichonoldeb a rhinweddau ymgeiswyr gael eu hasesu'n fwy trwyadl. Nid yw grantiau wedi cael dyfarnu ac nid yw penderfyniadau ariannol allweddol eraill wedi cael eu gwneud bob amser ar sail gwybodaeth gadarn a chyfredol. Ac nid yw'r wybodaeth hon bob amser wedi bod yn gynhwysfawr ychwaith, gan gynnwys deunydd megis cyfrifon a archwiliwyd, cyfrifon rheoli, rhagolygon llif arian a rhagolygon cynllun busnes.

2.11 Nid yw gallu y sawl sy'n derbyn y grant bob amser wedi cael ei harchwilio'n ddigon manwl. Mae cyllidwyr wedi methu ag asesu darpar ymgeiswyr a'u cynlluniau arfaethedig drwy ddadansoddi tueddiadau mewn niferoedd, dadansoddiad o'r farchnad a chanfyddiadau rhanddeiliaid. Dylai cyllidwyr a'r rhai sy'n derbyn grantiau ddefnyddio dadansoddiad sensitifrydd o ragdybiaethau allweddol yr achos busnes, er mwyn profi gwendidau ac unrhyw ansicrwydd mewn rhagamcanion ariannol. Yn aml nid yw'r rhai sy'n derbyn grantiau yn meddu ar yr adnoddau na'r sgiliau i ddatblygu ceisiadau neu reoli prosiectau mawr. Mae lle i gyllidwyr roi mwy o gymorth i ymgeiswyr ddatblygu sgiliau i lunio ceisiadau, yn enwedig mewn meysydd megis rhaglen *Cymunedau yn Gyntaf*. Mae lle hefyd i gyllidwyr helpu ymgeiswyr i ddatblygu partneriaethau ehangach neu gydweithredu â sefydliadau eraill sy'n meddu ar yr adnoddau a'r sgiliau perthnasol.

Astudiaeth Achos 1 - Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf

Ym mis Gorffennaf 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar Cymunedau yn Gyntaf, a nododd, ymhlith ffactorau eraill, wendidau o ran monitro.

Er gwaethaf buddsoddiad o £214 miliwn, roedd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dal i wynebu risgiau a heriau sylweddol wyth mlynedd ar ôl iddi gael ei lansio. Er bod negeseuon allweddol yr Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud â phlygu rhaglenni prif ffrwd i ategu Cymunedau yn Gyntaf, nododd ei adroddiad hefyd faterion a oedd yn ymwneud â gweinyddu'r arian grant. Ni allai Llywodraeth Cymru ddangos effaith gyffredinol y rhaglen o ran cyflawni ei hamcanion ac er ei bod yn gwella ei gallu i fesur cynnydd, roedd rhai gwendidau o hyd. Roedd gwendidau difrifol hefyd yn y ffordd roedd Llywodraeth Cymru wedi cynllunio ac wedi rheoli Cymunedau yn Gyntaf yn ystod blynyddoedd cynnar y rhaglen.

2.12 Weithiau mae cyllidwyr wedi methu â sicrhau bod staff profiadol ac arbenigol yn asesu'r risgiau o ran gallu rheoli ariannol y sawl sy'n derbyn grant. Nid fu'n ofynnol i ymgeiswyr am arian cyfalaf ddangos cydymffurfiaeth ag arfer da (er enghraifft, arfer da mewn adeiladu fel y'i nodwyd gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth). Yn olaf, ac fel y dengys achos *Cymad Cyf*, yn rhy aml mae cyllidwyr cyhoeddus wedi methu â rhannu gwybodaeth am wendidau a nodwyd yn nhrefniadau rheoli ariannol y sawl sy'n derbyn grant, hyd yn oed rhwng adrannau'r un cyllidwr.

Astudiaeth Achos 2 - Cymad Cyf

Ym mis Mai 2010 cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad *Rheoli arian cyhoeddus Cymad Cyf*, a nododd fethiant y cyllidwr i asesu a mynd i'r afael â gwendidau yng ngallu rheoli ariannol y sawl a oedd wedi derbyn grant.

Cafodd Cymad Cyf, sef asiantaeth fenter yng Ngwynedd, ei diddymu yn 2009. Rhwng 2003 a 2008 cafodd £3.6 miliwn o arian cyhoeddus ac roedd ei hamcanion yn gysylltiedig ag amcanion Rhaglen Ewropeaidd Leader II a chafodd y rhan fwyaf o'i harian o'r Rhaglen honno. Bu'n rhaid dychwelyd rhywfaint o'r arian oherwydd methiant i gydymffurfio ag amodau'r arian grant. Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad oedd Cymad wedi rheoli rhywfaint o'r arian cyhoeddus a gafodd yn ddigonol ond nad oedd tystiolaeth o gamddefnydd twyllodrus, a llwyddodd y cyrff cyhoeddus i reoli eu harian yn effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, neges allweddol oedd bod amrywiol gyrff cyhoeddus yng Nghymru a oedd wedi rhoi arian i Cymad wedi methu â rhannu gwybodaeth yn effeithiol ymhlith ei gilydd am y gwendidau a nodwyd ganddynt o ran systemau a rheolaethau Cymad.



Bu diffyg eglurdeb o ran meini prawf ac amcanion

- 2.13** Mae adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn nodi gwendidau yn y ffordd y cafodd amcanion eu pennu gan gyllidwyr grant. Mae canlyniadau i ddinasyddion yn aml yn aneglur ac anodd eu mesur. Ymhlith yr enghreifftiau allweddol roedd blynyddoedd cynnar y rhaglen *Cymunedau yn Gyntaf*.
- 2.14** Bu methiant hefyd i gadarnhau'r safonau ansawdd angenrheidiol o dan amodau'r grant. Dangosodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar *Buddsoddiad Cyfalaf mewn Ysgolion* fod angen i gynlluniau grant ar gyfer prosiectau adeiladau newydd nodi meini prawf ar gyfer adeiladu'n glir, gan ddefnyddio cyngor a chanllawiau sy'n bodoli eisoes ac yna eu diweddarw wrth i ddeddfwriaeth neu ofynion eraill newid.
- 2.15** Mae adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi nodi methiant cyffredin yn aml i gysylltu amcanion canlyniadau penodol â dadansoddiad o ba adnoddau sydd eu hangen a dealltwriaeth glir o'r ffordd y bydd y rhaglen neu'r prosiect yn cyflawni'r amcanion hynny. Rydym hefyd wedi nodi diffyg eglurder ar ran cyllidwyr mewn perthynas â'u cyfraniadau eu hunain tuag at dalu am bob elfen o gostau rhaglen. Ac mewn perthynas â buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion yn benodol, nodwyd methiant i bennu amserlen glir i'r rhai a oedd yn derbyn grantiau o ran cwblhau'r gwaith cyfalaf.
- 2.16** Gwelwyd achosion lle mae dangosyddion canlyniadau wedi amrywio rhwng partneriaid sy'n cyflawni'r un prosiectau. Mae angen datblygu a chytuno ar ddangosyddion o'r fath, er enghraifft o ran sut roedd y rhaglen *Cymunedau yn Gyntaf* yn gwella canlyniadau i drigolion, ar y cyd.

- 2.17** Yn olaf, gwelwyd rhai achosion lle nad oedd y targedau canlyniadau penodol y nodwyd yn ddigon heriol. Heb dargedau heriol, mae risg wirioneddol y gall gwerth da am arian gael ei beryglu. Daw un enghraifft o'r gwendid hwn o ran rheoli grant o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol *Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Ariannu Coetir Ffynone a Chilgwyn yn gyhoeddus*, a gyhoeddwyd gennym ym mis Awst 2010.

Astudiaeth Achos 3 - Coetir Ffynone a Chilgwyn

Lleolir Coetir Ffynone a Chilgwyn yng ngogledd sir Benfro. Ym mis Gorffennaf 2006, cyflwynodd Calon yn Tyfu Cyf (Calon), sef cwmni cydweithredol o weithwyr gais i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru o dan gynllun grant Cydcoed y Comisiwn, i ddatblygu'r coetir at ddefnydd y gymuned.

Daeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod yr arian i Calon wedi bodloni amodau lefel uchel y cynllun grant, ond nad oedd meini prawf na gweithdrefnau'r cynllun ar gyfer adolygu ceisiadau yn ddigon cadarn, gan gynyddu'r risg na ellid diogelu'r buddsoddiad cyhoeddus sylweddol hwn.

Bu methiannau i asesu a lliniaru risgiau'n ddigonol

- 2.18** Fel y dengys astudiaeth achos *Coetir Ffynone a Chilgwyn* uchod, gwelwyd achosion o dalu arian cyhoeddus ymlaen llaw, lle nad yw'r sawl a oedd yn ei dderbyn wedi dangos na all prosiect fynd rhagddo heb daliad o'r fath, a lle nad yw risgiau blaendaliad wedi cael eu hasesu na'u lliniaru'n ddigonol. Cyfyd risg amlwg y gallai asedau a ddylai gael eu diogelu er budd y gymuned yn yr hirdymor gael eu colli, gyda'r goblygiadau andwyol i bwrs y wlad o ganlyniad i hynny, os na fydd mesurau diogelu o'r fath. Fel y nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, *Diogelu arian cyhoeddus ym Mhrosiectau LG, Casnewydd*, dylai cytundebau ariannu sicrhau bod modd adennill tir a seilwaith (neu eu gwerth) neu 'arian ymlaen llaw' os yw prosiectau yn methu â gwneud cynnydd rhesymol yn erbyn targedau.

Astudiaeth Achos 4 - Diogelu arian cyhoeddus ym Mhrosiectau LG, Casnewydd

Chwaraeodd methiant i reoli risg yn ddigonol ran allweddol yn y prosiect proffil uchel hwn, fel y nodwyd mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mawrth 2007.

Yn ei adroddiad ar ariannu prosiect mewnfuddsoddi mawr drwy arian cyhoeddus, canfu'r Archwilydd Cyffredinol, er bod y prosiectau wedi cael eu harfarnu'n briodol, bod y pecynnau cymorth y cytunwyd arnynt wedi amlygu'r Awdurdodau yng Nghymru i risgiau pwysig, nad oedd pob un ohonynt wedi'i rheoli'n ddigonol. Negodwyd pecyn cymorth gan yr Awdurdodau yng Nghymru ar gyfer prosiect a oedd yn fwy na'r disgwyl, ond a oedd yn cynnwys risgiau strwythurol annatod. Er i'r Swyddfa Gymreig (ar y pryd) ymgymryd â'r diwydrwydd dyladwy priodol a chael y cymeradwyaethau rheoliadol angenrheidiol, nododd yr adroddiad fod oedi cyn cael cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd, a bod y gymeradwyaeth honno yn seiliedig ar amcangyfrifon o gostau na ellid eu cadarnhau'n llawn. Yn bwysig ddigon, o dan y pecyn cymorth cytunwyd i dalu symiau o'r cychwyn gyda'r rhan fwyaf o'r cymorth yn daladwy ar gamau cynnar y prosiectau, a gallai'r darpariaethau adennill yn y cytundebau cyfreithiol fod wedi bod yn gryfach mewn rhai ffyrdd hefyd.

2.19 Mae llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn yn hanfodol, yn enwedig mewn cyrff bach megis elusennau a chwmnïau cyfyngedig drwy warant, nad ydynt yn dod o dan drefniadau archwilio prif ffrwd y sector cyhoeddus. Dangosir enghraifft o hyn yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar brosiect *Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc*. Yn yr un modd, ac fel elfen sylfaenol o lywodraethu da, yn ei adroddiad ar *Cymad Cyf* argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai llythyrau cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n derbyn y grant hysbysu ei gyllidwyr ar unwaith os amheuir unrhyw un o'i swyddogion sy'n ymdrin ag arian cyhoeddus o weithgarwch twyllodrus.

2.20 Mae thema glir wedi dod i'r amlwg o ran yr angen i staff sy'n gyfrifol am oruchwylio arian grant gael hyfforddiant mewn rheoli risg o bryd i'w gilydd. Dylent fod yn ddigon medrus i greu cofrestrau risg ar gyfer pob prosiect mawr dros ei gylch oes cyfan ac yna dylent eu hadolygu o leiaf bob chwarter. Wrth i brosiectau cyfalaf mawr symud o'r cam adeiladu i'r cam gweithredol, mewn rhai achosion methodd cyllidwyr a'r rhai a oedd wedi derbyn grant â nodi risgiau gweddilliol, asesu eu heffaith a rhoi cynlluniau priodol ar waith i'w rheoli.

Astudiaeth Achos 5 - Prosiect Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc

Ym mis Mawrth 2010, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc gan dynnu sylw at y methiant i ymdrin ag amrywiaeth o faterion difrifol dros nifer o flynyddoedd.

Roedd rhai o'r methiannau ym mhrosiect Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc (PMCF) wedi cael eu nodi rai blynyddoedd cyn i bryderon aelod o'r cyhoedd ysgogi adolygiad archwilio mewnol ac ymyrraeth gan yr Archwilydd Cyffredinol. Daeth ei adroddiad i'r casgliad bod methiant i ymdrin â materion am nifer o flynyddoedd ac y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi monitro trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru yn fwy effeithiol. Daeth i'r casgliad hefyd y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi ymateb yn fwy effeithiol i bryderon penodol am PMCF a ddygwyd at ei sylw gan drydydd partïon.

2.21 Mae hefyd yn amlwg o adroddiad Plas Madoc, ynghyd â'r ffaith i gyn gydlynedd y cynllun bledio'n euog yn ddiweddar i naw achos o dwyll, y dylid ystyried bod rhai risgiau penodol yn rhan annatod o rai prosiectau sy'n cael arian grant ac sy'n cael eu cyflawni yn y gymuned. Weithiau mae cyllidwyr grant wedi methu â'i gwneud yn glir i'r rhai sy'n derbyn grantiau fod yn rhaid iddynt weithredu yn hollol unol â'r safonau cydnabyddedig ar gyfer bywyd cyhoeddus a sicrhau gwerth priodol am arian am arian cyhoeddus.



Bu gwendidau yn y prosesau monitro parhaus

- 2.22** Mae cyfrifoldeb ar bob corff cyhoeddus i gadw cofnodion priodol a gwybodaeth fonitro. Mae ein gwaith wedi nodi, yn enwedig yn yr adroddiad ar *Ganolfan Mileniwm Cymru*, na ddylent ddehongli'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel rhywbeth sy'n rhoi unrhyw fath o gyfiawnhad dros fethiant i gadw gwybodaeth a chofnodion pwysig.
- 2.23** Rydym wedi canfod hyd yn oed ar ôl methiannau hirsefydlog i fonitro neu ar ôl i archwilwyr a thrydydd partion eraill godi pryderon, er enghraifft, mewn perthynas â *Phlas Madoc*, neu goetir *Ffynone a Chilgwyn*, fod gwybodaeth fonitro wedi bod yn hynod wan ar adegau.
- 2.24** Dylai lefel ac amllder y wybodaeth fonitro sydd ei hangen, wrth reswm, fod yn gymesur â'r risg, ond mae'n debygol o gynnwys o leiaf gyfrifon rheoli misol, rhagolygon llif arian parod a dangosyddion perfformiad busnes allweddol. Fel y dangosodd adroddiad *Cymad Cyf*, dylai cyllidwyr barhau i adolygu sefyllfa ariannol y sawl sy'n derbyn grant er mwyn nodi gwendidau posibl mewn trefniadau rheoli ariannol a thrwy hynny sicrhau bod cyfle i gymryd camau unioni amserol.
- 2.25** Dylai systemau cofnodi perfformiad hefyd ganolbwyntio ar y graddau y mae prosiectau yn sicrhau amcanion hirdymor y cyllidwr, yn hytrach nag ymdrin â chyflawni allbynnau y gellir eu mesur ar unwaith. Gall nodi mesurau priodol ar gyfer canlyniadau i ddinasyddion fod yn anodd, sydd yn aml yn deillio o gyfuniad cymhleth o fewnbynnau. Ond mae cyllidwyr weithiau wedi methu â monitro'r mesurau a bennwyd ganddynt.

Mae cyllidwyr wedi methu â gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd wrth gynllunio cynlluniau newydd

- 2.26** Thema gyffredin arall a gododd yn ein gwaith fu methiant cyson cyllidwyr i ystyried eu cylch ariannu fel cyfle i ddysgu o brofiad blaenorol er mwyn atgyfnerthu prosesau a gwella effeithiolrwydd cyffredinol eu cynlluniau grant. Ein canfyddiad oedd y dylai cyllidwyr, yn enwedig ym maes *Buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion* ac mewn arian cyfalaf gan gyrrff megis Cyngor y Celfyddydau, fod yn fwy systemig wrth werthuso gwerth am arian ac effaith eu buddsoddiadau cyfalaf.

Mae'r ffordd y rheolir grantiau'n amrywio'n sylweddol o ran ansawdd ar lefel awdurdodau lleol

- 2.27** Fel y gwelwyd yn yr amrywiol astudiaethau achos a nodir yn yr adroddiad hwn, gall peidio â chydymffurfio ag amodau a thelerau sydd yn aml yn gymhleth olygu bod yn rhaid i grantiau gael eu had-dalu'n llawn neu'n rhannol. Gall enghreifftiau o beidio â chydymffurfio ddeillio o ffactorau mor amrywiol â chamgyfrifiadau rhifyddol, cynnwys treuliau anghymwys, dyblygu costau penodol neu anghysondebau o ran dyddiadau.
- 2.28** Mae archwilwyr yn dod i'r casgliad p'un a yw cofnodion neu geisiadau yn debygol o fod wedi'u nodi'n gywir pan fyddant yn eu 'hardystio'. Pan fo unrhyw un o'r ffactorau a ddisgrifir uchod yn peri i gais fod yn anghywir, bydd yr archwilydd yn hysbysu'r ymgeisydd ac yn gofyn iddo gytuno ar addasiad unioni i'r cais. Os na fydd yn cytuno – neu os erys rhywfaint o ansicrwydd o hyd – bydd yr archwilydd yn 'amodi'r' cais. Cafodd tua chwarter yr holl geisiadau am grant gan

awdurdodau lleol yng Nghymru eu hamodi, neu fel arall eu haddasu o swm sylweddol cyn iddynt gael eu cyflwyno'n derfynol, yn sgîl gwaith yr archwilwyr yn 2009-10. Mae hyn yn cymharu â thua'r un gyfran o geisiadau y cyhoeddwyd llythrau ardystio yn eu cylch yn Lloegr yn 2009-10.

2.29 Dengys **Arddangosyn 7** y cynnydd cyson yng nghanran y ceisiadau mewn perthynas â cheisiadau am grantiau Llywodraeth Cymru sydd wedi cael eu hamodi a/neu eu haddasu ers 2005-06, er bod gwerth yr addasiadau wedi gostwng dros 50 y cant yn ystod yr un cyfnod.

2.30 Gwelir cryn amrywiad yn lefel y ceisiadau am grant sy'n cael eu hamodi neu eu haddasu ar draws y 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru, fel y dengys **Arddangosyn 8**. Cafodd dros chwarter y ceisiadau am grant ar gyfer 2009-10 mewn dros hanner y cynghorau eu hamodi neu eu haddasu, ac mewn un cyngor cafodd 60 y cant o'i geisiadau eu haddasu neu eu hamodi.

Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mewn pedwar cyngor ceir cyfradd amodi o lai na 10 y cant, gydag un cyngor â record berffaith ar gyfer 2009-10.

2.31 Er bod gennym rywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod y cynghorau hynny sydd â swyddog penodol i gydlynu a gwella'r ffordd y gweinyddir grantiau wedi llwyddo i wella eu perfformiad yn hyn o beth, rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau lle mae cyngor sydd wedi cymhwyso ei brosesau cyfredol yn fwy trylwyr wedi cael canlyniadau tebyg.

2.32 Fel y dengys **Arddangosyn 9**, mae amrywiaeth mawr o resymau pam mae angen amodi ceisiadau am grant. Y gwendidau mwyaf cyffredin yw bod y cais ei hun wedi'i baratoi'n anghywir ynghyd â diffyg tystiolaeth ategol, sydd gyda'i gilydd wedi cyfrif am bron hanner y 290 o faterion amodi a nodwyd ar gyfer 2009-10. Ymhlith ffactorau pwysig eraill mae cynnwys gwariant nas cymeradwywyd neu wariant anghymwys, gwaith monitro annigonol gan drydydd partïon a phrynu'n ddiotal.


Arddangosyn 7 - Addasu ac amodi ceisiadau llywodraeth leol, 2005-06 i 2009-10

	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10
Amllder amodi a/neu addasiadau mawr	1 o bob 6 chais	1 o bob 5 cais	1 o bob 4 cais	1 o bob 4 cais	1 o bob 4 cais
Gwerth gros addasiadau	£5.0 miliwn	£4.0 miliwn	£3.8 miliwn	£1.3 miliwn	£2.0 miliwn
Nifer y ceisiadau am grant sy'n cael eu hamodi, neu sy'n cynnwys addasiadau gwerth dros £10,000	292	275	312	201	189

Ffynhonnell: Data Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ddaw o gopiâu o geisiadau a datganiadau wedi'u hardystio, Mawrth 2011




Arddangosyn 8 - Canran y ceisiadau am grant a gafodd eu haddasu neu eu hamodi ar gyfer 2009-10, yn ôl cyngor



Ffynhonnell: Data Swyddfa Archwilio Cymru (Mawrth 2011) ar grantiau a ddaw o gopïau o geisiadau a datganiadau wedi'u hardystio

Arddangosyn 9 - Rhesymau dros achosion o amodi ceisiadau awdurdodau lleol

290 o faterion amodi a ddadansoddwyd o 230 o lythyrau amodi a gyhoeddwyd yn ystod 2009-10 (ar gyfer ceisiadau 2008-09 yn bennaf)



Ffynhonnell: Data Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ddaw o gopïau o geisiadau a datganiadau wedi'u hardystio

2.33 Mae'n amlwg hefyd bod y rhan fwyaf o gynghorau yn methu â manteisio ar y corff sylweddol o ganllawiau a chymorth sydd ar gael i'w helpu i wella cywirdeb ac effeithlonrwydd eu prosesau gweinyddu grantiau. Un ffactor allweddol, a ystyrir yn fanylach yn yr adran ganlynol, yw'r diffyg cymhellion gwirioneddol i bob golwg i'r rhai sy'n derbyn grantiau gyflwyno ceisiadau mwy cywir am grantiau, yn enwedig o ystyried mai anaml iawn y mae cyllidwyr yn cymryd camau hyd yn oed mewn ymateb i geisiadau wedi'u hamodi.

Yn aml nid yw cyllidwyr yn mynd i'r afael â pherfformiad gwael yn gadarn nac yn gwneud gwaith dilynol pan fydd ceisiadau yn cael eu hamodi

2.34 Dim ond os bydd cyllidwyr a'r rhai sy'n derbyn grantiau yn mynd ar drywydd pob achos o amodi yn effeithiol y bydd modd sicrhau'r budd mwyaf o waith yr archwilydd. Ar ôl derbyn llythyrau amodi, dylai cyllidwyr ddilyn proses gadarn i sicrhau y caiff gordaliadau eu hadennill ac yr eir i'r afael â gwendidau mewn ceisiadau. Yn gyntaf, dylent adennill gordaliadau ac, mewn achosion mwy difrifol, ystyried atal unrhyw daliadau yn y dyfodol nes bod problemau wedi'u datrys yn foddhaol. Dylai cyllidwyr ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n derbyn grant ddarparu unrhyw ddogfennau neu wybodaeth sydd ar goll a cheisio cadarnhad ynghylch a yw wedi gwella ei weithdrefnau i atal hynny rhag digwydd eto. Yn bwysig ddigon, dylai cyllidwyr hefyd rannu goblygiadau ehangach yn fewnol (er enghraifft, rhwng adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru) a chyda chyllidwyr cyhoeddus eraill y sawl sy'n derbyn grant.

2.35 Mae ein gwaith ar archwilio ceisiadau am grant, yn ogystal ag astudiaethau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol o agweddau ar brosiectau mawr sy'n cael arian grant, wedi ein harwain at y casgliad clir bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n dyfarnu grantiau yn aml yn methu â gweithredu ar geisiadau gwallus. Cyfyd risg amlwg fod symiau o arian cyhoeddus yn cael eu camgyfeirio ac o ganlyniad i hynny caiff eu heffaith arfaethedig eu gwanhau. Cyfyd risg hefyd y gallai hyder y cyhoedd yn y ffordd y gwerir arian trethdalwyr ei danseilio os bydd rhagor o achosion proffil uchel fel y rhai a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

2.36 Mae llawer o'r problemau sy'n arwain at amodi a/neu addasu ceisiadau am grant yn rhai hirsefydlog. Atgoffwyd Llywodraeth Cymru mewn llythyr amodi gan yr archwilydd ym mis Rhagfyr 2009 fod angen iddi gytuno ar falansau cyngor ar gyfer y Grant Teithio Rhatach yn y blynyddoedd cyn 2007-08. Wrth weinyddu'r Grant Cynnal a Chadw Ffyrdd, mae Llywodraeth Cymru dro ar ôl tro wedi methu ag ymateb i geisiadau awdurdodau i gymeradwyo gwaith ar y ffyrdd ac yn yr un modd wedi methu ag ymateb i lythyrau amodi archwilwyr yn nodi gwariant ar gynlluniau a oedd yn ychwanegol at y rhaglen wreiddiol. Yn rhannol oherwydd y methiant hwn gan y cyllidwr i ymateb, gwariodd un cyngor tua £219,000 ar waith nad oedd wedi'i gynnwys yn y gymeradwyaeth wreiddiol.

2.37 Fel y dengys **Arddangosyn 7**, yn 2009-10 roedd angen i awdurdodau lleol wneud addasiadau gwerth tua £2 filiwn i geisiadau am grant ar gais yr archwilydd mewn perthynas â chynlluniau grant allweddol Llywodraeth Cymru. Roedd angen addasu un o bob pedwar cais, gydag un o bob tri chais ar ddeg yn gofyn am addasiad sylweddol.



Mae addasiadau ar y raddfa eang hon yn ei gwneud yn dipyn mwy anodd i awdurdodau lleol gynllunio eu cyllid i gyflawni prosiectau gydag unrhyw sicrwydd.

2.38 Fodd bynnag, nid oes amheuaeth nad yw ardystio ceisiadau am grant yn ffordd effeithiol o atal ceisiadau anghywir. Pan gyflwynwyd y Grant Trin Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol bron ddegawd yn ôl, ardystiwyd ceisiadau yr hen awdurdodau iechyd gan y Comisiwn Archwilio. O 2002-03, fodd bynnag, disodlwyd y cynllun grant hwnnw gan y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau, a gyfeiriwyd at Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Pennwyd telerau ac amodau newydd, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu rheolaethau ariannol digonol, ac nid oedd angen trefniadau ardystio gan archwilydd. Wedi hynny, ac ar gais Llywodraeth Cymru, ailgyflwynwyd trefniadau ardystio yn 2007. Ledled Cymru, canfu archwilwyr fod bron draean o geisiadau awdurdodau ar gyfer y flwyddyn honno yn anghywir a chawsant eu hamodi.

Rhan 3 – Er mai araf yw'r cynnydd o ran gwella a chyflwyno dulliau ariannu amgen yn lle arian grant, mae cyllidwyr a sawl un o'r rhai sy'n derbyn grantiau yn dechrau gwella eu trefniadau

3.1 Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod gwendidau mewn perthynas ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli grantiau yng Nghymru i'w cael mewn nifer o feysydd allweddol, ac rydym yn ystyried ymatebion cyllidwyr a'r rhai sy'n derbyn grantiau i'r materion hyn yn y rhan hon o'r adroddiad. Fodd bynnag, mae sawl mater yn codi dro ar ôl tro yn ein gwaith, sy'n gymwys i bob un sy'n dyfarnu ac yn derbyn grantiau, ac fe'u crynhoir isod.

Araf yw'r gwelliant

3.2 Mae archwilwyr yn hysbysu cyrff a archwilir am unrhyw risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â grantiau yn y Llythyr Archwilio Blynyddol (neu ddogfen gyfatebol) ac mewn adroddiadau cyfnodol eraill sy'n ymdrin yn benodol â materion ymwneud ag ardystio grantiau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ein hadroddiadau i Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddid ganddi dro ar ôl tro wedi nodi achosion lle nad oedd yn glir sut roedd grantiau yn cydweddu i bolisïau a strategaethau. Gwelwyd nifer o achosion hefyd lle nad oedd cynlluniau grant mwy hirsefydlog wedi cael eu hadolygu yn erbyn anghenion ac amgylchiadau mwy cyfredol. Ar fwy nag un achlysur, rydym hefyd wedi nodi pa mor anaddas yw'r amserlenni ar gyfer cylchoedd ymgeisio a chyflwyno ceisiadau am grant. Efallai mai'r gwendid sy'n codi amlaf yw nad yw targedau perfformiad yn aml wedi'u diffinio'n ddigon da ac nad ydynt yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Golyga hyn ei bod yn anodd gwneud gwerthusiad cadarn o werth am arian.

Mae mwy o le i gyrff cyhoeddus ddefnyddio dulliau ariannu ar wahân i grantiau penodol i gyflawni eu canlyniadau

3.3 Mae ystod o opsiynau ar gael i gyrff cyhoeddus wrth iddynt geisio cyflawni eu hamcanion o ran polisïau a gwariant. Maent yn amrywio o arian grant penodol, i ddulliau megis benthyciadau, i brosesau syml ar gyfer prynu nwyddau neu wasanaethau. Yn ein barn ni, bu gorddibyniaeth ar arian grant fel yr opsiwn diodyn ac mae'n galonogol gweld cyllidwyr, gan gynnwys Llywodraeth Cymru yn dod yn fwy ymwybodol o'r angen i deilwra dulliau ariannu i'r diben dan sylw. Fodd bynnag, pa ddull bynnag a ddefnyddir, mae'n rhaid bod ffocws ar sicrhau gwerth am arian a chanlyniadau penodol.

3.4 Er y gallant ddewis dyfarnu grantiau amhenodol, gall cyrff cyhoeddus hefyd ddewis caffael nwyddau neu wasanaethau drwy drefniadau cytundebol, cynnig benthyciadau (y mae'n rhaid eu had-dalu ac felly y gellir eu hailfuddsoddi mewn prosiectau tebyg), neu gallant ddewis buddsoddi mewn prosiectau, sef cael budd uniongyrchol yng nghanlyniad y prosiect neu, lle y bo'n berthnasol, ddod yn gyfranddaliwr mewn cwmni sy'n derbyn arian.



- 3.5** Gan mai rhodd yw grant yn dechnegol, nid oes hawl benodol gan y cyllidwr i gael unrhyw beth yn gyfnewid amdano, ac fel arfer mae'n pennu amrywiol delerau ac amodau cyffredinol neu benodol ynglŷn â sut y dylid gwario'r grant a sut y dylid cyflwyno unrhyw geisiadau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn derbyn gohebiaeth yn rheolaidd yn codi pryderon am y ffordd y mae grantiau yn cael eu cyfeirio at ddarparwyr nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys honiadau o ffafrio a/neu beri anfantais fasnachol oddi wrth ddarpar ddarparwyr gwasanaethau eraill. Mewn rhai achosion, nid yw'r cyfiawnhad dros dalu grant, yn hytrach na mabwysiadu llwybr caffael, yn cael ei ategu gan dystiolaeth ddogfennol.
- 3.6** Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae contract yn gytundeb rhwng y comisiynydd a'r parti arall y gellir ei orfodi'n gyfreithiol lle mae'r parti arall yn cytuno i ddarparu gwasanaethau yn gyfnewid am dâl Yn gyffredinol, mae'n haws gorfodi contract na chytundeb grant. Hefyd, mae pob math o gaffael cyhoeddus yn y DU wedi'i reoli gan Gytundeb yr Undeb Ewropeaidd (gan gynnwys rheoliadau ynglŷn â Chymhorthion Gwladwriaethol) a Chyfarwyddebau Caffael Ewropeaidd.
- 3.7** Yn 2008, cyhoeddodd Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Seland Newydd ganllaw arfer da "Public sector purchases, grants and gifts: Managing funding arrangements with external parties". Mae **Atodiad 3**, er nad yw'n berthnasol i gyd-destun Cymru ym mhob ffordd, yn cynnig trosolwg defnyddiol o'r wahanol gategorïau o drefniadau a chydberthnasau ariannu.
- 3.8** Er mwyn cydnabod fod y meini prawf i ddewis mecanwaith ariannu benodol yn gymhleth, a phwysigrwydd gwneud y penderfyniad cywir, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tîm ymateb cyflym. Rhan o swyddogaeth y tîm yw i gynghori'r Swyddog Cyfrifo perthnasol ynglŷn â'r fecanwaith ariannu mwyaf addas ar gyfer unrhyw gynnig newydd. Mae'r tîm yn cynnig cyngor er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian; cadw at anghenion deddfwriaethol a pholisïau a threfniadau perthnasol; ac uchafu ar debygolrwydd llwyddo nodau Llywodraeth Cymru.
- 3.9** Megis cychwyn mae'r fenter hon ond ymddengys ei bod yn cefnogi amcanion y Prosiect Rheoli Grantiau ac y gallai roi cymorth amserol a chydgyssylltiedig i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- 3.10** Mae achosion proffil uchel o gau ffatrioedd megis y rhai ar safle Bosch ym Meisgyn a ffatri LG yng Nghasnewydd wedi tynnu sylw at y duedd naturiol ymhlith cwmnïau, ac yn enwedig mewnfuddsoddwyr, i ddilyn y pecyn mwyaf hael o gyllid gan y llywodraeth.
- 3.11** Fodd bynnag, gwelir arwyddion o ddefnydd helaethach o fenthyciadau i ysgogi buddsoddiad, a all helpu i liniaru'r risgiau hyn. Un enghraifft yw prosiect JEREMIE a weinyddir gan Cyllid Cymru, sy'n cyfuno cyllid Banc Buddsoddi Ewrop ag arian o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i annog buddsoddi mewn busnesau bach a chanolig. Mae'r rhai sy'n cael y benthyciadau yn eu had-dalu wrth iddynt dyfu ac yna gall Cyllid Cymru ail-fuddsoddi'r gyfran gychwynnol o arian mewn prosiectau eraill, er mwyn sicrhau manteision pellach. Yn yr un modd mae'r porth grantiau ar-lein, sef *Cyllid Cynaliadwy Cymru*, yn datgan ei fod yn cynnig "cyngor a chanllawiau ymarferol i sefydliadau sydd am ddatblygu ymagwedd entrepreneuriaidd tuag at ariannu".

Mae Llywodraeth Cymru a chyllidwyr eraill bellach yn gwella eu trefniadau ar gyfer rheoli grantiau er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhai newidiadau cadarnhaol

- 3.12** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno trefniadau newydd yn ddiweddar i helpu i reoli ei busnes gyda'r nod o gyflwyno mwy o weithio trawsadrannol mewn perthynas â rheoli grantiau a chynnig fframwaith rheoli grantiau effeithiol a chynaliadwy. Yn bwysig ddigon, mae hefyd wedi sefydlu'r 'Prosiect Rheoli Grantiau'.
- 3.13** Cymeradwywyd yr Achos Busnes dros y Prosiect Rheoli Grantiau, sy'n cyfeirio at lawer o'r gwendidau a'r materion a nodwyd yn flaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2010. Mae'n datgan mai nodau'r prosiectau yw sicrhau:
- a** gwell prosesau, gweithdrefnau ac offer i helpu i ddyfarnu, monitro a rheoli grantiau mewn ffordd briodol;
 - b** gwell gwybodaeth i wella a chefnogi prosesau cynllunio, gweithredu a gwneud penderfyniadau ar lefel gorfforaethol ac adrannol ac ar lefel y cynllun;
 - c** fframwaith llywodraethu a rheoleiddio cyson i reoli adnoddau'n well er mwyn atal camddefnyddio arian;
 - ch** fframwaith rheoli grantiau effeithlon a phroffesiynol.
- 3.14** Fel rhan o'r prosiect, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi creu Tîm Canolfan Rhagoriaeth, i helpu staff sy'n ymdrin â grantiau mewn adrannau unigol. Mae gan y Tîm hwn rôl bwysig yn y gwaith o rannu arfer gorau ac arbenigedd ym mhob un o adrannau Llywodraeth Cymru, a safoni prosesau rheoli grantiau. Mae cynlluniau ar waith hefyd ar gyfer system TG gorfforaethol newydd a fydd yn rheoli holl gynlluniau grant a phrosiectau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, a sefydlu proses 'porth grantiau'. Bwriedir i'r system TG newydd fod yn weithredol yn 2013 ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddi roi darlun cywir o wariant grantiau drwy'r sefydliad cyfan, a hefyd ganlyniadau penodol yr amrywiol grantiau hynny.
- 3.15** Mae enghreifftiau eraill o fentrau gan Lywodraeth Cymru i wneud arian wedi'i neilltuo yn fwy effeithiol. Yn 2009, lansiodd gronfa newydd o'r enw 'Cronfa Buddsoddi i Arbed', a oedd yn cynnwys portffolio o fuddsoddiadau ad-daladwy yn hytrach na grant syml²². Y nod oedd creu cronfa gynaliadwy, gan y caiff pob ad-daliad sy'n deillio o gyfran o'r arbedion a wneir yn y dyfodol ei ailgylchu i ariannu gweithgareddau newydd. Ar y cychwyn, darparwyd tua £20 miliwn ar gyfer y cynllun newydd hwn, sy'n helpu 46 o brosiectau i wella effeithlonrwydd, hyrwyddo cydweithio, gan gynnwys datblygu trefniadau gwasanaethau a rennir, a gwella gofal i gleifion neu bobl sy'n agored i niwed.
- 3.16** Yn sgîl adolygiad 2009-10 Llywodraeth Cymru o'r ffordd yr ariennir addysg dechreuodd y Gweinidog Addysg adolygiad o 'Adnoddau Rheng Flaen' gyda'r nod o symleiddio'r system ariannu a lleihau biwrocratiaeth ddiangen²³. Mae gan dîm yr adolygiad sawl gweithgor ac mae un yn canolbwyntio



ar grantiau a pholisi. Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd yr adroddiad *Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen - Flwyddyn yn Ddiweddarach*. Ymhlith yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad roedd:

- a** llai o gynlluniau grant APADGOS ar wahân i awdurdodau lleol
- b** symud i ffordd symlach o ariannu sy'n seiliedig ar fformiwla, sy'n ystyried y model newydd o gonsortia;
- c** cynllun grant integredig newydd i ategu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

3.17 Yn ymateb y Gweinidog Addysg i'r argymhellion, dywedodd: *'mewn perthynas â grant cyfansawdd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, dylai 85% o'r arian gael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i gyfrifon banc ysgolion. Nododd hefyd y byddai 'rhagdybiaeth na fyddai proses 'ymgeisio' ar gyfer arian referniw a ddelir gan APADGOS ac eraill oni bai bod rheswm eithriadol a chymhellol i wneud hynny (er enghraifft er mwyn cydymffurfio â gofynion ariannu Ewropeaidd)'*.

3.18 Nid yw'r ymgais hon i symleiddio cynlluniau grant yn gyfyngedig i faes addysg o bell ffordd. Yn achos un o'r cynlluniau mwyaf o ran maint a mwyaf trawsbynciol, Cefnogi Pobl, caiff dau ffrwd ariannu, sef Grant Referniw Cefnogi Pobl a Grant Cefnogi Pobl, eu huno o dan brosesau dyrannu a dosbarthu diwygiedig²⁴. At hynny, bwriedir canolbwyntio mwy ar sicrhau canlyniadau diriaethol, gwerthuso cadarn a dulliau newydd o amcangyfrif y gwerth am arian a gafwyd yn well.

Mae cyllidwyr eraill wedi cyflwyno newidiadau cadarnhaol

3.19 Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn datblygu ymagwedd 'Tîm Cymru' tuag at ei gyfundrefn arian grant²⁵. Mae'r Cyngor am weld partneriaethau gwirioneddol a chynaliadwy yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol yn dod yn rhywbeth arferol. Drwy weithredu'n fwyfwy fel corff sy'n galluogi ac yn cynghori, mae'r Cyngor yn gobeithio ychwanegu gwerth at waith ei bartneriaid drwy eu helpu i ddod o hyd i atebion ar y cyd a thrwy wella cysylltiadau'n lleol ac yn genedlaethol. Bwriedir i ymagwedd 'Tîm Cymru' y Cyngor Chwaraeon arwain at well prosesu dyfarnu grantiau drwy wella cydberthnasau a'r rhai sy'n cael y grantiau a thrwy ysgogi mwy o gydweithredu.

3.20 Mae cynllun Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn symud tuag at 'ariannu ar sail canlyniadau', gan weithredu ar gyngor y Gronfa Loteri Fawr²⁶. Nod y Bwrdd yw dileu biwrocratiaeth ddiangen ac arbed amser, a hefyd wella ansawdd y wybodaeth a gesglir am effeithiau ei ariannu. Ymhlith y ffyrdd newydd o fonitro sy'n cael eu cyflwyno gan y Bwrdd mae rhai o'r ffyrdd a ddefnyddir gan 'Plant mewn Angen' i gael gwybodaeth ansoddol, megis mesur newidiadau i deimladau pobl tuag at yr iaith Gymraeg drwy ddefnyddio cyfweiliadau un wrth un a dyddiaduron fideo. Mae'r Bwrdd hefyd yn argymhell defnyddio cynllun monitro 'Prove It!' sef pecynnau cymorth poblogaidd a syml a ddefnyddir yn helaeth yn y sector gwirfoddol i brofi canlyniadau ac asesu effaith gwaith prosiect²⁷.

3.21 Un enghraifft o weithredu hyblyg fyddai penderfyniad Cronfa Dreftadaeth y Loteri i newid rhai o'i gweithdrefnau mewn ymateb i'r heriau economaidd a wynebwr gan lawer o ymgeiswyr am ei grantiau. Mae wedi cynyddu ei dyraniad blynyddol ar gyfer prosiectau mawr o £20 miliwn i £30 miliwn a hefyd wedi dileu ei therfyn amser ar gyfer ymgeisio, fel y gall ymgeiswyr weithio yn ôl yr amserlenni mwyaf addas ar gyfer eu prosiectau eu hunain. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ymgeiswyr sicrhau cymorth gan bartneriaid a gweithio'n fwy effeithiol gyda chyllidwyr eraill. Er bod gwerth am arian yn dal i fod yn hollbwysig, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri bellach yn annog ymgeiswyr i ofyn am yr hyn sydd ei angen arnynt mewn gwirionedd i gyflawni eu prosiectau, yn hytrach nag ymgeisio am lai o arian yn y gobaith o gael gwell cyfle i gael grant o gwbl. Ym mis Awst 2008, dywedodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn gyhoeddus: *'yn yr hinsawdd sydd ohoni byddai'n well gan y Gronfa gael ceisiadau am ychydig mwy o arian ar y cychwyn na gweld prosiectau mawr yn methu'n ddiweddarach oherwydd pwysau ar ffynonellau ariannu eraill'*²⁸.

Mae rhai cyngorau wedi gwella eu trefniadau rheoli grantiau, ond mae eraill yn methu â gwneud hynny

3.22 Mae ceisiadau am grantiau gan dri awdurdod yng Nghymru (Ceredigion, Bro Morgannwg a Wrecsam) ond yn cael eu hamodi ar adegau prin bellach. O ran grantiau Llywodraeth Cymru, roedd dau gyngor ond wedi gweld un cais yn unig ganddynt yn cael ei amodi ar gyfer arian 2009-10 ac nid oedd yr un cais wedi'i amodi gan y trydydd cyngor.

3.23 Mae Cyngor Sir Gâr wedi penodi Swyddog Cydymffurfiaeth Grantiau i'w helpu i wella ei brosesau ar gyfer rheoli grantiau a rhoi cymorth i'w reolwyr prosiect ac aelodau eraill o staff. Erbyn hyn mae gan y Cyngor 'siop un stop' ar gyfer cyngor arbenigol a chymorth i lunio ceisiadau'n well. Mae buddsoddiad mewn cronfa ddata ariannu wedi helpu i godi arian ac wedi gwella'r ffordd y rheolir prosiectau gan fod y gronfa ddata yn ei gwneud yn bosibl i olrhain hynt grantiau a phrosiectau yn llawn ac mewn ffordd ryngweithredol. Mae gwell cydweithredu rhwng adrannau yn golygu bod ceisiadau'r Cyngor am arian nid yn unig o safon well, ond hefyd ei fod yn osgoi'r perygl y bydd rheolwyr sy'n cystadlu â'i gilydd yn dyblygu ymdrech.

3.24 Gwelir enghreifftiau hefyd o glystyrau o gyrff cyhoeddus, a arweinir gan gynghorau, yn dod ynghyd i wella'r ffordd y maent yn ymdrin ag arian grant. Prosiect yn y de-ddwyrain yw 'Artsconnect' lle mae saith awdurdod yn creu gwasanaeth a rennir ar gyfer y celfyddydau wedi'i gefnogi gan becyn ariannu llawer mwy cydlynol²⁹. Yn y de-orllewin, mae ffeiriau ariannu rhanbarthol yn dwyn ynghyd bedwar awdurdod lleol a'u cymdeithasau cynghorau gwirfoddol. Drwy gydweithio, gall tua 1,200 o bobl sy'n dod i'r digwyddiadau hyn fanteisio ar gyngor ar arian grant, cymorthfeydd wyneb yn wyneb a gweithdai.




Atodiad 1 – Strategaeth Grantiau Swyddfa Archwilio Cymru

- 1 O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac, yn fwy penodol, Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau ardystio ar gyfer ceisiadau am grant a ffurflenni os gofynnir iddo wneud hynny gan gyllidwr perthnasol neu gorff sy'n derbyn grant.
- 2 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu dros £600 miliwn i lywodraeth leol bob blwyddyn o dan amrywiol gynlluniau grant, y mae llawer ohonynt yn cael eu hardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae hefyd yn ardystio arian grant gan ffynonellau eraill. Er enghraifft, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu £250 miliwn arall i lywodraeth leol Cymru a daw £250 miliwn arall o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).
- 3 Mae gwaith ardystio archwilydwr yn rhoi sicrwydd uniongyrchol a gwerthfawr i'r corff sy'n talu a'r corff sy'n derbyn arian a hefyd, yn anuniongyrchol, i drethdalwyr a defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae ardystio hefyd yn helpu i nodi a lleadaenu arfer da ym maes rheoli a gweinyddu grantiau, a all arwain at leihau costau prosesu a gwelliannau eraill mewn gwasanaethau. Mae cost ardystio yn gymesur ac mae ffioedd yn cyfrif am lai na 0.2 y cant o werth ceisiadau ar gyfartaledd.
- 4 Gall gwaith monitro fod yn llafurus. Mae nodi gwybodaeth prosiect, ei chasglu, ei dadansoddi a chyflwyno adroddiadau arni yn arwain at gostau drwy oedi ac amser staff.
- 5 Gan y gall cyllidwyr cyhoeddus fod yn amharod i gymryd risgiau, maent yn aml yn cael eu temtio i bennu gofynion monitro gormodol. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol y cyngor canlynol:

'Funding bodies should seek to minimise the monitoring and inspection burden on the recipients of funds to a level proportionate to the level of funding and risk, and which maintains proper control of public monies'.

Trysorlys EM, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Swyddfa Masnach y Llywodraeth (2006).
- 6 Nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ganllawiau ymarferol hefyd ynglŷn â sut i gymhwyso arferion monitro cymesur yn 2009. Roedd yn annog cyllidwyr a'r rhai sy'n derbyn arian i drafod gofynion monitro ar gam cynnar a defnyddio systemau ac adroddiadau sy'n bodoli eisoes, megis adroddiadau blynyddol a chyfrifon, lle y bo modd.
- 7 Yn ystod 2009-10, gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol drefniadau ardystio ar gyfer 36 o gynlluniau, a oedd yn ymwneud â 774 o geisiadau. Bu'n bolisi ganddo ers rhai blynyddoedd i gael mwy o effaith drwy ardystio nifer gynyddol lai o gynlluniau a chanolbwyntio ar y rhai sydd â'r gwerth mwyaf.
- 8 Mae **Arddangosyn 10** yn crynhoi sut y cyflawnwyd hyn.

Arddangosyn 10 - Ardystio ceisiadau am grant – dadansoddiad o dueddiadau dros bum mlynedd



8 Caiff arbenigedd Swyddfa Archwilio Cymru mewn rheoli grantiau ei gydnabod yn eang yn y proffesiwn cyfrifyddu. Chwaraeodd Swyddfa Archwilio Cymru ran bwysig yn y gwaith o ddatblygu fframwaith newydd ynglŷn ag archwilio grantiau'r llywodraeth a gyhoeddwyd gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr. Mae copi o'r Cyhoeddiad Technegol hwn, AAF 01/10, ar gael ar ein Cyfnewidfa Arfer Da ar gyfer Grantiau. Nod y fframwaith yw gwella dealltwriaeth o'r hyn y gall archwilydd ei wneud pan ofynnir iddynt ardystio ceisiadau. Bydd yn cyflwyno mwy o gysondeb ym maes adroddiadau ar grantiau.

9 Ym mis Chwefror eleni, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at bob corff cyhoeddus yng Nghymru, y mae'n ardystio eu ceisiadau am grant, er mwyn amlinellu ei strategaeth i sicrhau:

- a** cyfeiriad clir ar gyfer pob agwedd ar waith ardystio grantiau;
- b** ffordd fwy effeithlon a chost-effeithiol o ardystio grantiau;
- c** y caiff y gwaith o ardystio grantiau ei integreiddio'n well â'i waith archwilio eraill ar faterion ariannol a pherfformiad.



- 10 Bydd mwy o hyblygrwydd:** mae'r Strategaeth Grantiau yn disgrifio dull gweithredu hyblyg, sy'n caniatáu ar gyfer ardystio cynlluniau grant sy'n gweithio mewn ffordd wahanol neu newydd.
- 11 Bydd gwaith ardystio yn gymesur â'r risg:** dim ond pan fydd cyfiawnhad clir dros ardystio cynllun y bydd archwilwyr yn gwneud hynny, yn hytrach na'i ardystio fel mater o reol. Lle mae'n bosibl gwneud hynny heb risg annerbyniol caiff y trothwy 'de minimis' cyfredol (y lefel y byddwn yn ardystio cais) ei gynyddu i ddechrau o £50,000 i £100,000 ar gyfer ceisiadau. Caiff egwyddor 'de-minimis' ei chymhwyso'n 'ddeallus' gyda'r lefel de-minimis yn cael ei hadolygu ar gyfer pob cynllun bob blwyddyn.
- 12 Bydd ein rhaglen waith yn y dyfodol yn adlewyrchu risgiau yn well a byddwn yn annog cyllidwyr i ystyried a oes angen gwaith ein harchwilwyr ar ein cynlluniau, gan y gallai dulliau amgen megis cysylltiadau a gwaith monitro rheolaidd, neu'r defnydd o archwilwyr mewnol fod yn fwy addas os bydd lefel isel o risgiau a chymhlethdodau.**
- 13 Byddwn yn parhau i brofi ceisiadau yn gadarn ond yn ceisio ffyrdd newydd o wneud hynny:** mae'r Strategaeth yn ei gwneud yn glir y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio pob cais yn ôl lefel briodol o brofion sylweddol, waeth beth fydd ansawdd rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, bydd y cyfarwyddiadau a'r canllawiau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu rhoi i'r rhai sy'n gyfrifol am ardystio ceisiadau am grantiau yn y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried rheolaethau mewnol y rhai sy'n derbyn arian, ochr yn ochr ag unrhyw waith perthnasol gan archwilwyr mewnol.
- 14 Rydym yn gwella prosesau adrodd ac ystyried sut y gellir ardystio canlyniadau anariannol:** nid yw'n ddichonadwy eto i gyflwyno adroddiadau ar faterion anariannol wrth ardystio ceisiadau ond mae Swyddfa Archwilio Cymru yn trafod gyda'r cyrff sy'n talu sut y gellid dechrau ardystio rhai o ganlyniadau anariannol prosiectau'n annibynnol.
- 15 Bellach bydd archwilwyr hefyd yn cyflwyno adroddiadau ar berfformiad cyffredinol mewn perthynas â grantiau ym mhob awdurdod lleol:** ar gais Llywodraeth Cymru, rydym wedi datblygu ffordd newydd o roi darlun Cymru gyfan o grantiau i Ardaloedd Adfywio Strategol. Mae'r cynnyrch hwn yn ei helpu i nodi risgiau allweddol a llywio gwaith archwilio yn y dyfodol a disgwylir iddo arwain at arbed costau sylweddol. Byddwn yn datblygu cynhyrchion gwerth ychwanegol eraill ym maes rheoli grantiau fel y bo'n briodol.
- 16 Byddwn yn ymwneud â'r rhai sy'n llunio cynlluniau ar gam cynharach ac mewn ffordd fwy effeithiol:** yn hanesyddol dim ond mewn perthynas â'r ffordd y dylai cynlluniau grant sydd eisoes wedi'u llunio gael eu hardystio y mae cyrff sy'n talu wedi cysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru (er mwyn cael y sicrwydd angenrheidiol bod arian grant wedi cael ei wario'n briodol). O dan y ffordd newydd o weithredu byddwn yn mynd ati i adolygu cynlluniau ar gam cynharach, lle y bo modd ar gam datblygu polisi.
- 17 Drwy ymwneud â'r adrannau sy'n talu a Chanolfan Ragoriaeth Llywodraeth Cymru ar gam cynharach, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi cyngor ac arweiniad gwerthfawr ar y gwaith o ddatblygu cynlluniau newydd (er mwyn sicrhau eu bod wedi'u llunio'n gadarn i helpu i gyflawni amcanion y**

cynllun yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol). Y canlyniad fydd llai o amodi ac addasu a mwy o sicrwydd i gynorthwyo gwaith cynllunio a rheoli ariannol.

